# Cân Bendibwmbwls

Bendibwmbwls!
'Dan ni mewn trwbwl!
Mae sbwriel hyd a lled moroedd y byd!
Bendibwmbwls!
Pawb mor ddi-feddwl!
Yn taflu gwastraff dros y lle i gyd!

Felly ffrindie!
Dyma ein cyfle!
I gasglu plastig, gwydr, metel, tun!
Ie, ffrindie!
Fe godwn hwylie!
Y rhwydi fydd yn llawn o'r pethe hyn!

Nid aur yw popeth melyn,
Na, credwch fi bob gair,
'Di pob dim sydd yn werthfawr
Ddim yn arian drud disglair!

Mi fedra i greu trysor
O bopeth sydd yn y lli,
Hen raff neu esgid ledr?
Wel, dowch â nhw i mi!

Bendigedig!
Cyhoeddiad pwysig!
'Dan ni am ailddefnyddio rhain i gyd!
Gyda'n dychymyg!
Creu celf arbennig!
Cawn hwyl a sbort a sbri wrth helpu'r byd!

© 2024 S4C